Moses

Exodus 1: 8-22, 2:1-10

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Exodus 1: 8-22, 2:1-10		
1	Daeth brenin newydd i deyrnasu yn yr Aifft, un oedd yn gwybod dim byd am Joseff nac am hanes yr Israeliaid.		
2	Pan welodd faint o Israeliaid oedd yn yr Aifft dwedodd wrth ei bobl, "Mae yna ormod o Israeliaid yn y wlad yma!"		
3	Dwedodd wrth yr Eifftiaid, "Os bydd y niferoedd yn dal i dyfu, a rhyfel yn torri allan, byddan nhw'n helpu'n gelynion i ymladd yn ein herbyn ni. Gallen nhw hyd yn oed ddianc o'r wlad."		

4	Felly dyma'r Eifftiaid yn cam-drin pobl Israel, a'u gorfodi i weithio am ddim iddyn nhw, ac yn gosod meistri gwaith i gadw trefn arnyn nhw.	
5	Gorfodwyd yr Israeliaid i weithio a dyma nhw'n adeiladu Pithom a Rameses yn ganolfannau storfeydd i'r Pharo.	
6	Ond er bod yr Eifftiaid yn eu gweithio nhw mor galed, roedd niferoedd yr Israeliaid yn dal i gynyddu.	
7	Felly dechreuodd yr Eifftiaid eu hofni a'u casáu nhw go iawn, a'u cam-drin nhw fwy fyth.	
8	Shiffra a Pwa oedd enwau bydwragedd yr Hebreaid.	

9	Felly dyma frenin yr Aifft yn siarad â Shiffra a Pwa, a dweud wrthyn nhw, “Pan fyddwch chi'n gofalu am wragedd Hebreig wrth iddyn nhw eni plant, os mai bachgen fydd yn cael ei eni, dw i eisiau i chi ei ladd e'n syth; ond cewch adael i'r merched fyw.”	
10	Ond am fod y bydwragedd yn parchu Duw, wnaethon nhw ddim beth roedd brenin yr Aifft wedi ei orchymyn iddyn nhw. Dyma nhw'n cadw'r bechgyn yn fyw.	
11	Dyma'r Pharo yn galw nhw eto, a gofyn “Beth dych chi'n wneud? Pam dych chi'n gadael i'r bechgyn fyw?” A dyma'r bydwragedd yn ateb, “Mae'r plant yn cael eu geni cyn i ni gyrraedd yno!”	
12	Yna dyma'r Pharo yn rhoi gorchymyn i'w bobl: “Mae pob bachgen sy'n cael ei eni i'r Hebreaid i gael ei daflu i'r Afon Nil, ond cewch adael i'r merched fyw.”	
13	Roedd dyn o deulu Lefi wedi priodi gwraig ifanc oedd hefyd yn un o ddisgynyddion Lefi. A dyma nhw'n cael mab. Pan welon nhw'r babi bach hyfryd, dyma nhw'n ei guddio am dri mis.	

14	Ond, ar ôl hynny roedd hi'n amhosib ei guddio.	
15	Felly dyma ei fam yn cymryd basged frwyn, a'i selio gyda tar.	
16	Yna, dyma hi'n rhoi'r babi yn y fasged, a'i osod yng nghanol y brwyn wrth lan yr afon Nil.	
17	A dyma Miriam, chwaer y plentyn yn mynd i sefyll heb fod yn rhy bell, i weld beth fyddai'n digwydd iddo.	
18	Daeth merch y Pharo i lawr at yr afon i ymdrochi. A dyma hi'n sylwi ar y fasged yng nghanol y brwyn, ac anfon caethferch i'w nôl.	

19	Agorodd y fasged, a gweld y babi bach — bachgen, ac roedd yn crïo. Roedd hi'n teimlo trueni drosto. “Un o blant yr Hebreaid ydy hwn,” meddai.	
20	Yna dyma Miriam yn mynd at ferch y Pharo, a gofyn, “Ga i fynd i nôl un o'r gwragedd Hebreig i fagu'r plentyn i chi?” A dyma ferch y Pharo yn dweud, “Ie, gwna hynny!”	
21	Felly dyma hi'n mynd adre i nôl mam y babi. A dyma ferch y Pharo yn dweud wrthi, “Dw i eisiau i ti gymryd y plentyn yma, a'i fagu ar y fron i mi. Gwna i dalu cyflog i ti am wneud hynny.”	
22	Felly aeth y wraig a'r plentyn adre i'w fagu. Yna, pan oedd y plentyn yn ddigon hen, dyma hi'n mynd ag e at ferch y Pharo, a dyma hithau'n ei fabwysiadu yn fab iddi ei hun.	
23	Rhoddodd yr enw Moses iddo — “Am fy mod wedi ei dynnu allan o'r dŵr,” meddai.	

24	Cyfieithwyd gan www.beibl.net Mae yna glip ffilm Cymraeg i gyd-fynd â'r stori yma ar wefan beibl.net	